

Fun in the Playground



Hwyl ar iard yr Ysgol

Adapted from an original story by:
Addaswyd o stori wreiddiol gan:
Mike Church

Illustrated by:
Darluniau gan:
Les Evans

Graphic Design:
Dylunio Graffeg:
David Ganderton

A Play Wales and Petra Publishing Production
Cynhyrchiad Chwarae Cymru a Petra Publishing

A catalogue record for this book is available from the British
Library ISBN 978-1-9160226-8-3

Published by: Play Wales 2022
Design and print copyright © Play Wales 2022
Illustration copyright © Play Wales 2022
Registered charity No. 1068926.

All rights reserved. No part of this publication may be recorded,
stored in a retrieval system, or transmitted, in any form or by any
means, electronic, mechanical, photocopying, recording or
otherwise, without permission from Play Wales.

Printed in Wales.

Mae cofnod catalog o'r llyfr hwn ar gael o'r Llyfrgell Brydeinig
ISBN 978-1-9160226-8-3

Cyhoeddwyd gan: Chwarae Cymru 2022
Hawlfraint dylunio ac argraffu © Chwarae Cymru 2022
Hawlfraint darluniau © Chwarae Cymru 2022
Elusen cofrestredig, Rhif 1068926.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn
gael ei atgynhyrchu, ei storio mewn system adalw na'i
drosglwyddo mewn unrhyw fodd neu trwy unrhyw ddull, boed yn
electronig, yn fecanyddol, trwy lungopio, recordio neu fel arall,
heb ganiatâd oddi wrth Chwarae Cymru.

Argraffwyd yng Nghymru.



Written by:

- **Louise Davies**, Primary Reading Leader at The Bridge Alternative Provision, Bridgend
- **Bradleigh Hughes**, Higher Level Teaching Assistant, Goetre Primary School, Merthyr Tydfil
- **Joanne Jenkins**, Teacher, Pencoed Primary School, Bridgend
- **Joanne McDonald**, Higher Level Teaching Assistant, Rainbow Federation Schools Llanrumney, Cardiff and Playworker at Llanharan Community Development Project, Rhondda Cynon Taf
- **Sarah Rogers**, Healthy Pre-School Practitioner for Cwm Taf Morgannwg, Public Health Wales

With special thanks to the children at Llanharan Community Development
Partnership playscheme for all of their great ideas for the story.

Ysgrifennwyd gan:

- **Louise Davies**, Arweinydd Darllen Cynradd yn Narpariaeth Amgen Y Bont, Pen-y-bont ar Ogwr
- **Bradleigh Hughes**, Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch, Ysgol Gynradd Goetre, Merthyr Tydfil
- **Joanne Jenkins**, Athrawes, Ysgol Gynradd Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr
- **Joanne McDonald**, Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch, Ysgolion Ffederasiwn yr Enfys Llanrhymni, Caerdydd a Gweithiwr Chwarae ym Mhrosiect Datblygu Cymunedol Llanharan, Rhondda Cynon Taf
- **Sarah Rogers**, Ymarferydd Cyn Ysgol Iach gyda Chwm Taf Morgannwg, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gyda diolch arbennig i'r plant yng nghynllun chwarae Partneriaeth Datblygu
Cymunedol Llanharan am eu holl syniadau gwych ar gyfer y stori.



Published in partnership with The Parent Network ~ Cyhoeddwyd mewn partneriaeth â The Parent Network



FOREWORD

I'm Rocio Cifuentes and I am the Children's Commissioner for Wales.

My job is to help every child in Wales to learn about their children's rights. I work with lots of adults too to make sure that they respect your rights. Children's rights are the things you need to grow up feeling happy, healthy and safe.

Fun in the playground is about your right to play.

I meet lots of children from across Wales and they tell me that playing is important and makes them feel happy.

This story talks about the different ways you can play and the friends you can make while playing. I hope you enjoy this story and have the chance to play with some 'mystery bins' of your own.

Rocio Cifuentes

Children's Commissioner for Wales

Rhagair

RHAGAIR

Rocio Cifuentes ydw i a fi yw Comisiynydd Plant Cymru.

Fy swydd i yw helpu pob plentyn yng Nghymru i ddysgu am eu hawliau plant. Rydw i'n gweithio gyda llawer o oedolion hefyd i wneud yn siŵr eu bod yn parchu dy hawliau. Hawliau plant yw'r pethau yr wyt ti eu hangen i dyfu i fyny yn teimlo'n hapus, iach a diogel.

Mae ***Hwyl ar iard yr ysgol*** am dy hawl i chwarae.

Rydw i'n cwrdd â llawer o blant o bob cwr o Gymru ac maen nhw'n dweud wrthyf fi bod chwarae'n bwysig a'i fod yn gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus.

Mae'r stori yma'n siarad am y gwahanol ffyrdd y galli di chwarae a'r ffrindiau y galli di eu gwneud wrth chwarae. Gobeithio y gwnei di fwynhau'r stori yma a chael cyfle i chwarae gyda 'biniau rhyfeddodau' dy hun.

Rocio Cifuentes

Comisiynydd Plant Cymru

Nobody really knew where Zac came from.

On his first day at his new school, Zac and his mum were late for the bus.

'Doedd neb yn siŵr iawn o ble ddaeth Zac.

Ar ei ddiwrnod cyntaf yn ei ysgol newydd, fe gollodd Zac a'i fam y bws.



So, when he arrived later than everyone else at school,
Zac made heads turn. Everyone was excited when the new boy arrived,
but Zac said nothing and played with no-one.

His big eyes were watchful as he entered the busy,
loud playground.





Felly, pan gyrhaeddodd yr ysgol yn hwyrach na phawb arall, fe wnaeth Zac droi pennau. Roedd pawb yn gyffrous pan gyrhaeddodd y bachgen newydd, ond ddywedodd Zac ddim byd na chwarae gyda neb.

Roedd ei lygaid mawr yn gwylio popeth wrth iddo gerdded i mewn i'r iard chwarae prysur, swnllyd.

The other children tried to guess who he was and where he came from.
Why was he so late for school? Where did he live?

The older children had all sorts of ideas. One thought that he came on a
spaceship from the planet Zoring, wherever that is!

Ceisiodd y plant eraill ddyfalu pwy oedd o ac o ble ddaeth o.
Pam oedd o mor hwyr yn cyrraedd? Ble oedd o'n byw?

Roedd gan y plant hŷn bob math o syniadau. Roedd un yn meddwl iddo
gyrraedd ar long ofod o'r blaned Zoring, ble bynnag mae fannu!





Seren and Dylan smiled kindly across the playground at the new boy.

But Zac said nothing.

Gwenodd Seren a Dylan yn garedig ar y bachgen newydd
o ochr arall yr iard chwarae.

Ond ddywedodd Zac ddim.

At playtime Zac was lost and alone as lots of children played football.
Some were skipping but there only seemed to be two ropes and everyone
was grabbing at them.

Then a row broke out in the football match and there was pushing
and shoving until a teacher stepped in.



Yn ystod amser chwarae, roedd Zac ar goll ac yn unig wrth i lawer o'r plant chwarae pêl-droed. Roedd rhai yn sgipio ond mae'n debyg mai dim ond dwy raff oedd ac roedd pawb yn ceisio cael gafael arnyn nhw.

Yna cychwynnodd dadl yn y gêm bêl-droed ac roedd llawer o wthio a phwnio tan i athro gamu i mewn.





When Zac went to his new classroom, he sat apart and didn't seem to know what to do. Everyone was writing a story, but he drew a picture of a place that made him feel happy.

Words didn't come easily for Zac.

Pan aeth Zac i'w ddosbarth newydd, fe eisteddodd ar wahân a 'doedd o ddim i'w weld fel pa bae'n gwybod beth i'w wneud. Roedd pawb yn ysgrifennu stori, ond fe dynnodd o lun o le oedd yn ei wneud yn hapus.

'Doedd geiriau ddim yn dod yn hawdd i Zac.

At lunch time, Mrs Evans noticed Zac was not included in any games.

She called Dylan and Seren over to her.

'Is that the new boy?' Mrs Evans asked.

'Yes,' said Seren, 'He doesn't seem to understand anything and we're not sure how we can help him.'

Amser cinio, sylwodd Mrs Evans nad oedd Zac yn cael ei gynnwys yn y gemau.

Galwodd ar Dylan a Seren i ddod draw ati.

'Hwnna ydi'r bachgen newydd?' gofynnodd Mrs Evans.

'Ie,' meddai Seren, 'Dydi o ddim i weld yn deall dim byd a dydyn ni ddim yn siŵr sut allwn ni ei helpu.'





At that moment, the football flew straight at Zac and hit him in the face.
Dewi was grinning from ear to ear.

Yr eiliad honno, saethodd pêl yn syth i gyfeiriad Zac a'i daro yn ei wyneb.
Roedd Dewi yn gwenu o glust i glust.

'Right!' said Mrs Evans and she walked quickly to where the injured boy lay.
'Dewi go and fetch the First Aid kit please. Zac is hurt.'

Dewi looked as if he wanted to argue but he could see Mrs Evans was serious.

'Reit!' meddai Mrs Evans, wrth gerdded yn gyflym at y bachgen oedd wedi ei anafu ar lawr. 'Dewi, cer i nôl y blwch Cymorth Cyntaf os gweli di'n dda.
Mae Zac wedi cal anaf.'

Edrychodd Dewi fel ei fod am ddadlau ond gallai weld bod Mrs Evans o ddifrif.



When Zac felt better, Mrs Evans said to Seren and Dylan:

'Right you two, can you please go and fetch my mystery bins from the hall,
you know the ones.'

Pan oedd Zac yn teimlo'n well, dywedodd Mrs Evans wrth Seren a Dylan:

'Reit chi'ch dau, ewch i nôl y biniau rhyfeddodau o'r neuadd, os gwelwch yn dda,
wyddoch chi pa rai.'



The mystery bins were Mrs Evans' set of tricks,
full of lots of stuff to play with at playtime.

Y biniau rhyfeddodau oedd casgliad cyfrinachol
Mrs Evans, yn llawn dop o stwff i chwarae gyda nhw
amser chwarae.



Those bins of yours will never work.
It's just a load of old rubbish,' said Miss Jones,
one of the other lunchtime workers. 'And' she went on,
'The parents don't want their kids playing with all
that throwaway stuff.'

Mrs Evans said nothing.

'Wnaiff eich biniau chi fyth weithio.
Maen nhw'n llawn o hen sbwriel,' meddai Miss Jones,
un o'r gweithwyr amser cinio eraill. 'Ac' ychwanegodd,
'Tydi'r rhieni ddim am i'w plant chwarae gyda'r holl
hen bethau yna.'

Ddywedodd Mrs Evans ddim.



The children came back pushing two big wheelie bins that were overflowing with things like rope, old sheets and cardboard.

Soon all sorts of stuff was spread across the whole playground.
And then the magic began.

Daeth y plant yn ôl yn gwrthio dau fin mawr ar olwynion oedd yn orlawn
o bethau fel rhaffau, hen gynfasau a chardfwrdd.

Yn fuan, roedd pob math o stwff wedi ei chwalu dros yr iard chwarae
i gyd. Ac yna, dechreuodd yr hud.





The playground was overflowing with sticks, floppy hats, toilet rolls, milk cartons, bread baskets, cable reels, handbags, suitcases, nets, pillows, rugs and blankets.

There was even an old wedding dress!

Roedd yr iard chwarae'n orlawn o ffyn, hetiau llipa, tiwbiau papur
tŷ bach, cartonau llaeth, basgedi bara, hen riliau ceblau, bagiau llaw,
cesys dillad, rhwydi, clustogau, matiau a blancedi.

Roedd yna hen ffrog briodas hyd yn oed!







Seren and Dylan started making an obstacle course and soon Zac joined in with them, smiling and laughing. He seemed to understand everything and so did the others.

Dechreuodd Seren a Dylan greu cwrs ras rwystrau ac yn fuan ymunodd Zac gyda nhw, gan wenu a chwerthin. Roedd fel pe bae'n deall popeth yn union fel y gweddill.





Dewi was stood all alone, watching everyone playing,
just as Zac had been before.

Safodd Dewi ar ben ei hun bach, yn gwyllo pawb yn chwarae,
yn union fel gwnaeth Zac o'r blaen.

Zac walked over to Dewi with two old washing up bowls.
Soon they were both running round the yard steering fast cars,
lorries or spaceships.

Cerddodd Zac draw at Dewi gyda dwy hen ddysgl olchi llestri.
Yn fuan wedyn, roedd y ddau yn rhedeg o amgylch iard yr ysgol
yn gyrru ceir cyflym, lorïau neu longau gofod.



Then the bell rang, and playtime was over.

But, nobody could find Miss Jones
anywhere and it was time to go in.

One of the children said he'd seen her with some
of the other children playing with the dressing up box.

Yna, canodd y gloch, ac roedd amser chwarae ar ben.

Ond allai neb gael hyd i Miss Jones
yn unman ac roedd hi'n amser mynd i mewn.

Dywedodd un o'r plant eu bod wedi ei gweld gyda rhai
o'r plant eraill yn chwarae gyda'r gist gwisgo i fyny.



Can you spot her?



Alli di ddod o hyd iddi?



Writing the story

Inspired by the fantastic reaction - by parents, families and those working with children - to our first two storybooks, Play Wales engaged Petra Publishing to work with us to develop and publish this storybook.

Like our other two storybooks, *Fun in the dungeon* and *Fun in the garden*, this book has been developed in partnership with Petra Publishing, an established community-based publisher.

Fun in the playground tells the story of one of the most important parts of the school day for many children - playtime. Supported by author and poet Mike Church, the story has been written by school staff working and living in Bridgend, Cardiff, Merthyr Tydfil and Rhondda Cynon Taf.

We are grateful to our story writing group which met several times online during the winter of 2021. Over the course of those weeks, the group discussed current issues regarding play. There was a shared view that schools have an important role to play in supporting children's wellbeing through ensuring they have plenty of time and space to play. The group's ideas were shared with our illustrator Les Evans, who brought their story to life.

Fun in the playground reminds us beautifully about how all adults in children's lives can either support or hinder the right to play. It captures the importance of supportive and tolerant adults and environments in helping children to realise their right to play.

'As an early years teacher for over 25 years, I have always believed that children learn through play. The language of play is universal and everyone who works with children needs to understand the importance of play.'

Sarah Rogers,
Healthy Pre-School Practitioner for
Cwm Taf Morgannwg, Public Health Wales

'My role as a playworker has given me a wonderful new insight into the importance of play and helped me enhance my role as a teaching assistant.'

'I feel that it is essential that we give children time and space to explore, create and communicate with the world around them.'

Joanne McDonald,
HLTA Rainbow Federation Schools
Llanrumney and Playworker at Llanharan
Community Development Project

Ysgrifennu'r stori

Wedi ein hysbrydoli gan yr ymateb anhygoel - gan rieni, teuluoedd a phobl sy'n gweithio gyda phlant - i'n dau lyfr stori cyntaf, comisiynodd Chwarae Cymru gwmni Petra Publishing i weithio gyda ni i ddatblygu a chyhoeddi'r llyfr stori hwn.

Fel ein dau lyfr stori arall, *Hwyl yn y dwnjwn* a *Hwyl yn yr ardd*, mae'r llyfr hwn wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda Petra Publishing, gwasg gymunedol hirsefydlog.

Mae *Hwyl ar iard yr ysgol* yn adrodd hanes un o rannau pwysicaf y diwrnod ysgol i lawer o blant - amser chwarae. Wedi eu cefnogi gan yr awdur a'r bardd Mike Church, mae'r stori wedi ei hysgrifennu gan staff ysgol sy'n byw a gweithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Rydym yn ddiolchgar i'n grŵp ysgrifennu stori wnaeth gwrdd ar-lein nifer o weithiau yn ystod gaeaf 2021. Yn ystod yr wythnosau hynny, trafododd y grŵp faterion llosg cyfoes sy'n berthnasol i chwarae. Roedd barn gytûn bod gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi lles plant trwy sicrhau eu bod yn cael digon o amser a lle i chwarae. Cafodd syniadau'r grŵp eu rhannu gyda'n darlunydd Les Evans, wnaeth ddod â'u stori'n fyw.

Mae *Hwyl ar iard yr ysgol* yn ein hatgoffa'n berffaith sut y gall pob oedolyn ym mywyd plentyn un ai gefnogi neu rwystro'r hawl i chwarae. Mae'n crynhoi pwysigrwydd oedolion ac amgylcheddau cefnogol a goddefgar wrth helpu plant i dderbyn eu hawl i chwarae.

'Fel athrawes blyneddodd cynnar ers dros 25 mlynedd, rwyf wastad wedi credu bod plant yn dysgu trwy chwarae. Mae iaith chwarae yn fyd-eang ac mae angen i bawb sy'n gweithio gyda phlant ddeall pwysigrwydd chwarae.'

Sarah Rogers,

Ymarferydd Cyn Ysgol Iach gyda Chwm Taf Morgannwg, Iechyd Cyhoeddus Cymru

'Mae fy rôl fel gweithiwr chwarae wedi rhoi dealltwriaeth newydd wych imi am bwysigrwydd chwarae ac wedi fy helpu i gyfoethogi fy rôl fel cynorthwyydd addysgu.'

Rwy'n teimlo ei bod hi'n hanfodol inni roi amser a lle i blant archwilio, creu a chyfathrebu gyda'r byd o'u hamgylch.'

Joanne McDonald,

CALU Ysgolion Ffederasiwn yr Enfys Llanrhymni a Gweithiwr Chwarae ym Mhrosiect Datblygu Cymunedol Llanharan



Petra
PUBLISHING
Parents Engaging To Raise Aspirations



Plentyndod
Chwareus
Playful
Childhoods

A catalogue record for this book is available from the British Library ISBN 978-1-9160226-8-3
Mae cofnod catalog o'r llyfr hwn ar gael o'r Llyfrgell Brydeinig ISBN 978-1-9160226-8-3

